Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Branas

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Branas

Mae Ysgol Branas yn darparu addysg a therapi arbenigol ar gyfer bechgyn sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol cymhleth ac anawsterau dysgu cymedrol.  Caretech Ltd sy'n rheoli ac yn berchen ar yr ysgol.

Mae 17 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.  Mae pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu mamiaith.  Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu gynllun addysg, iechyd a gofal.  Mae disgyblion yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ac yn byw yn y cartrefi plant a weithredir gan Caretech.  Mae'r cartrefi plant wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.  Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd er mis Ionawr 2018.

## Prif ganfyddiadau

***Cryfderau***

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 yn ennill ystod eang o gymwysterau.  Dros gyfnod, mae bron pob un o’r disgyblion yn gwella eu hunan-barch, eu goddefgarwch o bobl eraill a’u hymddygiad.

Mae ffocws priodol ar ddysgu a chynnydd disgyblion gyda chynlluniau gwaith defnyddiol ar draws pynciau.  Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu ysgogol sy’n bodloni anghenion unigol disgyblion yn dda.

Mae’r ysgol wedi datblygu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer asesu llythrennedd a rhifedd disgyblion.  Mae’n nodi anghenion penodol disgyblion yn gywir ac yn darparu ystod o ymyriadau buddiol.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a phwrpasol i’r ysgol.  Mae ganddi ddealltwriaeth glir o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella.  Ers ei phenodi, mae wedi rhoi ystod eang o weithgareddau gwella ar waith, fel teithiau dysgu, cyfarfodydd rheolaidd gyda staff gofal a staff eraill, a nodi anghenion dysgu disgyblion unigol yn fwy cywir.

Mae gwaith agos rhwng yr ysgol a staff eraill yn sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd yn llywio cynllunio athrawon yn ddefnyddiol.  Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion ac mae wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn yr achosion o ymddygiad gwael yn yr ysgol.

***Meysydd i’w datblygu***

Mae’r ysgol yn adolygu cynnydd disgyblion yn rheolaidd mewn perthynas â’u targedau unigol.  Mae gan athrawon ddealltwriaeth dda o anghenion dysgu ac emosiynol unigol disgyblion.  Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud defnydd da yn gyson o’r wybodaeth am anghenion dysgu disgyblion wrth gynllunio gwersi.

Er bod cynllunio i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm yn gwella, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i ymarfer a datblygu eu medrau, yn enwedig mewn rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

**A1 Sicrhau bod athrawon yn defnyddio gwybodaeth am allu a chynnydd disgyblion wrth gynllunio gwersi i fodloni anghenion dysgu disgyblion**

**A2 Cryfhau'r ddarpariaeth ymhellach i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys mewn gweithgareddau galwedigaethol, cyfoethogi ac awyr agored**

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

Ers yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf i sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r ysgol bellach yn bodloni pob un o'r rheoliadau hyn.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion yn cael ei gydlynu ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys trwy gyrsiau galwedigaethol a gweithgareddau addysg awyr agored**

Mae'r ysgol yn defnyddio fframweithiau cenedlaethol addas i gefnogi ei chynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion. Mae arweinwyr y cwricwlwm yn datblygu canllawiau ac adnoddau defnyddiol i gynorthwyo athrawon â chynllunio a chyflwyno'r medrau hyn ar draws pob pwnc. Mae disgyblion wedi dechrau elwa ar gyfleoedd mwy rheolaidd i ymarfer ac ymestyn eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws meysydd pwnc, ac maent yn mwynhau'r gweithgareddau a gynigir, fel cymryd rhan ym marathon llythrennedd yr ysgol.

Nid yw'r cynllunio ar gyfer TGCh ar draws y cwricwlwm, a chydlynu medrau ar draws y rhaglen gweithgareddau cyfoethogi, cyrsiau galwedigaethol a gweithgareddau awyr agored, wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd.

**Argymhelliad 3: Datblygu fframwaith ffurfiol i asesu'r cynnydd a wna disgyblion yn eu presenoldeb, eu hymddygiad a'u dysgu tra byddant yn yr ysgol**

Mae gan yr ysgol systemau a phrosesau cadarn ar waith i asesu'r cynnydd a wna disgyblion yn eu presenoldeb a'u hymddygiad. Mae defnydd cyson o system bwyntiau strwythuredig yn galluogi staff i wobrwyo a chymell ymddygiadau cadarnhaol disgyblion. Defnyddir gwybodaeth o'r system bwyntiau yn dda i fonitro cynnydd disgyblion dros gyfnod ac ar draws ystod y profiadau dysgu. Mae hyn yn helpu'r ysgol i gynllunio newidiadau yn y ddarpariaeth i gynorthwyo disgyblion i wneud rhagor o welliannau a lleihau risgiau diangen. Mae dadansoddi'r data hwn yn dechrau rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i staff am batrymau ymddygiad i gefnogi cynllunio athrawon.

Caiff anghenion dysgu unigol disgyblion eu hasesu'n effeithiol. Cytunir ar dargedau mewn cynlluniau unigol gyda disgyblion a staff, ac fe'u rhennir gyda rhieni i sicrhau bod y blaenoriaethau nesaf ar gyfer dysgu yn cael eu deall gan bawb. Caiff targedau eu monitro'n dda a'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau cynnydd disgyblion.

Caiff gwybodaeth o adroddiadau cynnydd bob hanner tymor a chyfarfodydd amlasiantaethol bob deufis ar gynnydd disgyblion eu defnyddio'n dda i lywio'r cynllunio ar gyfer pob disgybl.

Mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y fframwaith ffurfiol newydd i asesu'r cynnydd a wna disgyblion yn eu dysgu tra byddant yn yr ysgol.

**Argymhelliad 4: Mynd i'r afael â'r materion mewn diogelu a nodwyd yn ystod yr ymweliad monitro blynyddol**

Mae'r ysgol wedi cymryd camau addas i fynd i'r afael â'r materion mewn diogelu a nodwyd yn ystod yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf. Er enghraifft, caiff y polisïau diwygiedig ar gyfer gwrthfwlio, ymddygiad, defnyddio ymyrraeth gorfforol, ymweliadau addysgol, a diogelu ac amddiffyn plant, eu cymhwyso'n gyson a'u rhoi ar waith yn effeithiol.

Mae'r diwygiadau i rolau arweinwyr a staff ac i sut y cynhelir asesiad risg o ymddygiad disgyblion, a'i gofnodi a'i fonitro, yn helpu sicrhau parhad mewn meysydd allweddol diogelu fel defnyddio ymyriadau corfforol. Mae hyfforddiant staff i'w cynorthwyo â'u rolau yn gynhwysfawr, a threfnir darpariaeth werthfawr hefyd ar gyfer staff a disgyblion i fyfyrio ar achosion difrifol mewn ardal ddynodedig.

Mae'r systemau a'r prosesau diwygiedig, ynghyd â newidiadau gwell i ddarpariaeth gwricwlaidd a bugeiliol, wedi cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol at welliannau yn ymddygiad disgyblion, yn enwedig o ran lleihau nifer y digwyddiadau heriol.

**Argymhelliad 5: Sefydlu cylch sicrhau ansawdd cadarn sydd â ffocws clir ar gynnydd a deilliannau disgyblion**

Mae'r pennaeth, gyda chymorth y pennaeth addysg, yn datblygu gweithdrefnau addas i sicrhau ansawdd gwaith yr ysgol. Mae hi wedi cyflwyno teithiau dysgu, craffu ar lyfrau ac wedi cynnal arsylwadau dysgu fel rhan o'r cylch gweithgareddau. Mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y trefniadau newydd hyn.

Mae prosesau ffurfiol i fonitro a chasglu gwybodaeth am gynnydd disgyblion unigol yn darparu gwybodaeth o ansawdd da i'r ysgol i lywio targedau unigol. Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiadau rhwng y gweithdrefnau hyn a chynllunio athrawon yn ddigon cryf. Mae hyn yn golygu nad yw gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn llywio cynllunio athrawon yn gyson.

Megis dechrau datblygu y mae trefniadau i sicrhau ansawdd effeithiolrwydd cynllunio athrawon, eu hymyriadau llythrennedd a rhifedd a chymedroli asesiadau athrawon o waith disgyblion.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### *Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### *Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### *Safon 6: Darparu gwybodaeth*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/01/2019